Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd

Adroddiad Adolygu

Ebrill 2021



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Cynnwys

1. **CRYNODEB GWEITHREDOL** 3

2. **CYFLWYNIAD** 4

3. **LLYWIO ADOLYGIAD Y CDLL** 5

4. **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL AMB** 15

5. **NEWIDIADAU POSIBL SYDD EU HANGEN** 20

   5.1 Adolygiad o Weledigaeth, Materion ac Amcanion y CDLl 20

   5.2 Adolygiad o Strategaethy CDLl 22

   5.3 Adolygiad o Bolisïau'r CDLl 25

6. **GOFYNION SYLFAEN TYSTIOLAETH YN Y DYFODOL** 31

7. **OPSIYNAU AR GYFER ADOLYGU** 33

8. **CASGLIADAU A CHAMAU NESAF** 34

9. **GEIRFA** 35

ATODIAD 1: Adolygiad Dyrannu'r CDLl 36

ATODIAD 2: Adolygiad Polisi'r CDLl 42

Llwybr Teithio Llesol Casnewydd

Friars Walk

Pont Ffordd Ddosbarthu'r De

1. Crynodeb Gweithredol

Diben yr Adroddiad Adolygu Drafft

1.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddiweddaru eu cynlluniau datblygu ac ystyried yr angen i adolygu naill ai drwy eu Hadroddiad Monitro Blynyddol (AMB) neu ar ôl cyrraedd 4 blynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Gwnaeth AMB Casnewydd 2020 argymhelliad, ac yn sgil hynny mae'r Cyngor wedi cytuno i ddechrau'r adolygiad a'r broses o lunio CDLl newydd.

1.2 Dim ond drwy adolygu'r cynllun ffurfiol y gellir gwneud newidiadau i CDLl mabwysiedig. Y cam cyntaf yw llunio Adroddiad Adolygu (AA), a fydd yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ffurf a chynnwys y cynllun diwygiedig ac a gyflwynir i'r Arolygydd i'w archwilio. Mae dau lwybr adolygu ar gael i ddewis ohonynt wrth ystyried sut i adolygu CDLl. Yn gyntaf, ceir Adolygiad Llawn o'r cynllun yn dilyn yr un gweithdrefnau ag a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun mabwysiedig, neu'n ail, y weithdrefn Adolygiad Byr lle mae'r paramedrau i'w hystyried yn canolbwyntio llawer mwy ac yn fwy cyfyngedig o ran eu cwmpas, fel y gwelwyd drwy'r AA.

1.3 Mae pwysigrwydd yr Adroddiad Adolygu hwn i broses y CDLl yn golygu ei bod yn hanfodol ei fod yn destun ymgynghoriad. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn ffurfio dull trylwyr a chadarn o greu CDLl Newydd ar gyfer Casnewydd. Ar ôl ymgynghori, caiff yr adroddiad ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd yn nodi'r goblygiadau posibl i gynnwys y cynllun a'r broses adolygu h.y. adolygiad o'r cynllun llawn neu adolygiad byr.

Ymgynghori

1.4 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft rhwng Ionawr a 5 Mawrth 2021. Gofynnwyd am farn ar y materion y dylid eu hystyried yn yr adolygiad llawn o'r CDLl, ynghyd â'r newidiadau posibl dilynol sydd eu hangen ar y CDLl, fel y nodir ym Mhenodau 5 a 6 yr adroddiad hwn.

1.5 Sylwch, os nad ydych chi neu'ch sefydliad eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan, gallwch wneud hyn drwy wefan y Cyngor: **www.casnewydd.gov.uk/cdll** drwy e-bost at **ldp.consultation@newport.gov.uk**, drwy ffonio 01633 656656 neu drwy ysgrifennu at: **Tîm Polisi Cynllunio, Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 707, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.**

Friars Walk

2. Cyflwyniad

2.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar 27 Ionawr 2015 ac mae'n nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnydd tir yng Nghasnewydd dros y cyfnod 2011 i 2026. Yn unol â gofynion statudol, mae'r CDLl wedi'i fonitro'n flynyddol a chyhoeddwyd pum Adroddiad Monitro Blynyddol hyd yma[1].

2.2 I sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyfoes, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol[2] ddechrau adolygiad llawn o'u CDLlau o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu, os nad yn gynt os yw canfyddiadau'r AMBau yn dynodi pryder sylweddol ynghylh gweithrediad y cynllun. Mae'r Adroddiad Adolygu (AA) drafft yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad[3], gan nodi hyd a lled arfaethedig newidiadau tebygol i'r CDLl presennol ac yn gofyn am gadarnhau y weithdrefn adolygu sydd i'w dilyn wrth baratoi CDLl newydd (CDLlN).

2.3 Mae'r Adroddiad Adolygu drafft wedi'i strwythuro fel yr argymhellwyd mewn canllawiau cenedlaethol ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

2.4 **Pennod 3** yn manylu ar y newidiadau polisi a'r sylfaen dystiolaeth ddeddfwriaethol, genedlaethol a lleol allweddol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl yn 2015 sy'n ystyriaethau pwysig i lywio adolygiad y CDLl.

2.5 **Pennod 4** yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau'r pum Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) blaenorol, gan amlinellu'r goblygiadau cysylltiedig ar gyfer adolygu'r CDLl.

2.6 **Pennod 5** yn darparu asesiad o'r CDLl presennol ac yn nodi'r newidiadau posibl o ran y Weledigaeth a'r Amcanion, y Strategaeth Ddatblygu a'r Polisïau i lywio'r broses adolygu.

2.7 **Pennod 6** yn ystyried y meysydd tystiolaeth y byddai angen eu hadolygu/diweddaru wrth baratoi CDLlN

2.8 **Pennod 7** yn ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer adolygu'r CDLl a chyfleoedd i gydweithio.

2.9 **Pennod 8** yn rhoi casgliad ar ffurf briodol diwygio'r cynllun ac yn amlinellu'r camau nesaf.

[1] Ar gael i'w gweld yn: http://www.newport.gov.uk/cy/Planning-Housing/Planning/Planning-policy/Local-Development-Plan/LDP-monitoring-reports.aspx

[2] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd: A.41

[3] Yn ofynnol o dan Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

3. Llywio Adolygiad Y CDLL

3.1. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried newidiadau cyd-destunol ers mabwysiadu'r CDLl. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i bolisiau, deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a fydd â goblygiadau i'r CDLlN. Nodir y newidiadau mwyaf arwyddocaol isod.

Newidiadau Deddfwriaethol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

3.2 Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016. Mae'n nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r dull cynllunio a arweinir gan gynllun. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDS).

3.3 Mae'n ofyniad statudol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd yr FfDC, a ailenwyd yn Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040, yn disodli Cynllun Gofodol Cymru a bydd yn nodi blaenoriaethau defnydd tir a fframwaith defnydd tir, gan ganolbwyntio ar y raddfa genedlaethol arwyddocaol, ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae'r FfDC wedi'i osod yn y Senedd ac mae'n destun cyfnod craffu a rhagwelir y caiff ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021; mae sut mae hyn yn effeithio ar Gasnewydd wedi'i nodi isod.

3.4 Yr effaith allweddol ar Gynlluniau Datblygu Lleol o gyflwyno'r FfDC ac CDS yw'r angen i ystyried adolygiad o'r CDLl unwaith y caiff y FfDC a'r CDS eu cyhoeddi neu eu mabwysiadu er mwyn sicrhau bod yr holl gynlluniau defnydd tir yn gyson.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

3.5 Gweithredwyd diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mewn ymateb i ganlyniad ymarfer mireinio'r CDLl a'u nod yw symleiddio rhai agweddau ar broses y CDLl. Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn dileu'r gofyniad statudol i hysbysebu camau ymgynghori yn y wasg leol; caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud diwygiadau i'r CDLl lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i warantu'r weithdrefn lawn, heb fynd drwy'r broses adolygu lawn; dileu'r angen i alw am ac ymgynghori ar safleoedd amgen yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo; a gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

3.6 Daeth y Rheoliadau CDLl diwygiedig i rym ar 28 Awst 2015 ac ynghyd â'r polisi a'r canllawiau cysylltiedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC), Argraffiad 10, a Llawlyfr diwygiedig y CDLl (Argraffiad 3), eu nod yw gwneud proses y CDLl yn fwy effeithlon ac effeithiol (h.y. galluogi paratoi ac adolygu cynlluniau'n gyflymach heb ragnodi diangen). Bydd angen ystyried y Rheoliadau diwygiedig o ran unrhyw adolygiad o'r Cynllun a rhoddir ystyriaeth bellach iddynt yn ôl yr angen.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.7 Mae'r Ddeddf yn ymwneud â rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y tymor hir, gweithio gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig; drwy gymhwyso saith nod llesiant. Mae Casnewydd wedi cynhyrchu ei Chynllun Llesiant Lleol yn ôl y gofyn sydd wedi disodli'r Cynllun Integredig Sengl (CIS/SIP). Bydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau ystyried canlyniad y Cynllun Llesiant yn y dyfodol yn hytrach na'r CIS y rhoddir sylw iddo ar hyn o bryd. Mae cynaliadwyedd yn un o egwyddorion craidd y CDLl a bydd cysylltiadau clir rhwng y CDLl a'r Cynllun Llesiant.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

3.8 Cafodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016 ac mae'n cyd-fynd â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo defnydd cynaliadwy, rheolaeth a datblygu ar adnoddau Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy fel y nodir isod.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3.9 Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae tair prif nod i'r Ddeddf: rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; mae'n gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; ac yn cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd y Ddeddf hefyd yn greiddiol i gyfres integredig o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu system hyblyg ac effeithiol ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn gynaliadwy, gan adlewyrchu egwyddorion ac arferion cadwraeth bresennol. Mae'r CDLl yn nodi polisïau sy'n benodol i'r ardal ac nid yw wedi ceisio ailadrodd polisi cenedlaethol a bydd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau i arferion cadwraeth yn cael eu hadlewyrchu lle bo angen mewn cynllun newydd.

Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017

3.10 Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac atal niweidiau iechyd y gellir eu hosgoi. Mae rhai o'r newidiadau perthnasol yn y Ddeddf yn cynnwys llunio strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gorbwysedd a bydd gofyniad i wneud Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ar benderfyniadau allweddol gan gynnwys Cynlluniau Datblygu lleol yn cael eu gwneud fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd.

Amffitheatr Rufeinig Caerllion

Polisi/Cynlluniau Cynllunio Cenedlaethol

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

3.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Dyfodol Cymru: cynllun cenedlaethol 2040 (DC) sef haen uchaf y cynllun datblygu yng Nghymru. Mae DC, a adwaenir yn gyfreithiol fel y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan gynnig cyd-destun ar gyfer sicrhau seilwaith/twf newydd. Bydd yn canolbwyntio ar faterion datblygu a defnydd tir o bwys cenedlaethol y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt a'u cyflawni. Mae DC yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru a gafodd ei ddirymu ar 24 Chwefror 2021.

3.12 Mae DC yn nodi Casnewydd fel Ardal Twf Genedlaethol. Mae'r Polisi yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi Casnewydd fel y ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad rhanbarthol ac mae am weld y ddinas yn chwarae rôl strategol fwy yn y rhanbarth. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ar draws y rhanbarth gydnabod Casnewydd fel ffocws ar gyfer tai strategol a thwf economaidd; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol; ac ystyried sut y gallant gefnogi rôl ranbarthol strategol gynyddol Casnewydd ac elwa ohoni. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau o fewn y rhanbarth ac yn Lloegr i hyrwyddo rôl strategol Casnewydd ac yn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi Casnewydd. Mae cynnwys Casnewydd fel Canolfan Twf Genedlaethol yn hwb sylweddol i'r ddinas.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

3.13 Mabwysiadwyd y Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) ar 12 Tachwedd 2019. Dyma'r cynllun morol cyntaf ar gyfer moroedd Cymru ac mae'n ymdrin ag ardaloedd y cynllun morol sydd ar y glannau ac ar y môr y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cynllunio morol ar eu cyfer. Mae'r CMCC yn nodi polisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer datblygu moroedd Cymru yn gynaliadwy. Bydd y cynllun yn helpu i reoli'r galw cynyddol am ddefnyddio ein hamgylchedd morol, yn annog ac yn cefnogi datblygiad economaidd sectorau morol mewn lleoliadau priodol ac yn ymgorffori ystyriaethau diogelu'r amgylchedd a chymdeithasol mewn penderfyniadau morol. Yn sgil lleoliad arfordirol Casnewydd, bydd angen i fersiwn nesaf y CDLl ystyried y CMCC mabwysiedig yn llawn.

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) a Nodiadau Cyngor Technegol

3.14 Ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Ionawr 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio Polisi Cynllunio Cymru deirgwaith; Argraffiad 11 yw'r fersiwn gyfredol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Ailddrafftiwyd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) i sicrhau bod goblygiadau cyhoeddi Dyfodol Cymru: cynllun cenedlaethol 2040 wedi'u hintegreiddio'n llawn mewn polisi. Mae hefyd yn rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd ar lesiant ac yn darparu datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb.

3.15 Ers mabwysiadu'r CDLl, gwnaed y newidiadau canlynol i Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (NCTM/MTAN) yng Nghymru:

- NCT 1: Cafodd Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar y Cyd eu dirymu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020.
- NCT 4: Diweddarwyd Datblygu Manwerthu a Masnach fis Tachwedd 2016.
- NCT 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy ei ddirymu gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021.
- NCT 11: Sŵn. Cafwyd galwad am dystiolaeth a wnaed yn gynnar yn 2020 i gefnogi'r adolygiad o'r NCT i gynnwys ansawdd aer a seinwedd. Cynllun Aer Glân i Gymru - Awyr Iach, Cymru Iach.
- NCT12: Diweddarwyd y dyluniad ym mis Mawrth 2016.
- NCT 14: Diweddarwyd Cynllunio Arfordirol yn ddiweddar, ac mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu.
- NCT 15: Diweddarwyd yr ymgynghoriad ar Ddatblygu a Pherygl o Lifogydd yn ddiweddar, ac mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu.
- NCT 20: Diweddarwyd Cynllunio a'r Gymraeg yn Hydref 2017.
- NCT 21: Diweddarwyd gwastraff ym mis Chwefror 2017.
- NCT 24: Cynhyrchwyd yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Mai 2017.
- Mae gwaith cyfredol yn cael ei wneud ar adolygu amaethyddiaeth ddwys.

Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol, Rhifyn 3

3.16 Cyhoeddwyd y Llawlyfr Datblygu, Argraffiad 3, ar 26 Mawrth 2020. Mae'r Llawlyfr yn ddogfen gyfeirio ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am, neu'n cyfranu at, baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi, monitro a diwygio cynllun datblygu, wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol, yn cael eu cyflawni ac yn cyfrannu at greu lleoedd, fel y diffinnir yn y polisi cenedlaethol a nodir yn PCC. Mae'r Llawlyfr yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd hyd yma, arfer gorau wrth ddatrys materion a sut i 'ddad-beryglu' cynlluniau drwy baratoi sail dystiolaeth gadarn a phendant. Mae'r Llawlyfr yn egluro disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r broses o lunio'r cynllun. Dyma fydd un o'r dogfennau cyfeirio allweddol ar gyfer datblygu CDLl newydd.

Polisi Adnoddau Naturiol

3.17 Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Bolisi Adnoddau Naturiol (PAN) ym mis Awst 2017. Ffocws y PAN yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r PAN yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol: darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau, a mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar le. Mae'r PAN hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal (DA), a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (gweler isod), gan sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn llywio'r dull o gyflawni'n lleol. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i'r Datganiad Ardal perthnasol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

3.18 Yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010), mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu ei hail strategaeth genedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (RhPLIEA/FCERM) (Hydref 2020). Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu rheoli'r risg ac yn gosod amcanion a mesurau'r holl bartneriaid, gan gynnwys CNC, am y deng mlynedd nesaf. Bydd angen i CDLl newydd gydnabod y risg a darparu fframwaith polisi sy'n ceisio atal amlygiad i risg a fydd yn cael ei lywio gan Fap Llifogydd Cymru disgwyliedig.

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

3.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymgynghori'n ddiweddar ar strategaeth drafnidiaeth newydd i Gymru: gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru (Tachwedd 2020). Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y strategaeth yw cyflawni 'System drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy'. Mae'r STC yn ddogfen statudol sy'n ofynnol gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Y Ddeddf). Mae'r strategaeth yn cwmpasu pob math o drafnidiaeth, gan nodi blaenoriaethau strategol a chanlyniadau dymunol y llywodraeth, gan ddarparu cyswllt â blaenoriaethau ehangach yn ogystal â chynlluniau ar lefel awdurdodau lleol. Bydd datblygu'r strategaeth hon yn cael effaith glir ar CDLl newydd.

Y Cyd-destun Rhanbarthol

Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)

3.20 Nod y CDS yw mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol fel tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth ar draws y rhanbarth. Rhagwelir y bydd Casnewydd yn rhan o'r ardal gynllunio strategol hon, yn unol â'r cynigion ar gyfer Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Caerdydd (DRC) sy'n dod i'r amlwg. Bydd gan CDLlau rôl sylfaenol o hyd yn y system a arweinir gan gynllun. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar y rheoliadau ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CC) yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer y weithdrefn i gynhyrchu CDSau yng Nghymru. Bydd y CC yn gyfrifol am gyflawni cynllunio strategol ac felly disgwylir y bydd cynnydd ar Gynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru yn digwydd ar ôl ymgynghori yn 2021.

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig

3.21 Cytunodd Llywodraeth y DU ar Fargen Ddinesig gwerth £1.28 biliwn ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a 10 awdurdod lleol, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd. Fel y nodir yn yr adroddiad 'Pweru Economi Cymru, bwriad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw annog y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill yn ei ffiniau i weithio gyda'i gilydd a chydweithio ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae hyn yn yn cynnwys buddsoddi yn seilwaith y rhanbarth, creu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol, datblygu gallu o ran defnyddio lled-ddargludyddion cyfansawdd, creu Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth, cymorth ar gyfer cyflogaeth y dyfodol, Sefydliad Busnes Rhanbarthol ac ymrwymiad i ddull partneriaeth o ymdrin â thai ac adfywio. Mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas-Ranbarth yn parhau i weithio ar gais Bargen Ddinas i ariannu prosiectau sydd â'r nod o hybu pa mor gystadleuol fydd y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cynnig y Fargen Ddinas ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLl.

Porth y Gorllewin

3.22 Mae Porth y Gorllewin yn bartneriaeth strategol a sefydlwyd yn ddiweddar sy'n anelu at ddarparu pwerdy economaidd a fydd yn sbarduno twf ar ddwy ochr Afon Hafren. Fel partner cyfartal, disgwylir i Gasnewydd fod yn chwaraewr allweddol yn llwyddiant Porth y Gorllewin a gwneud y gorau ar fanteision mwy o gydweithio. Ym mis Tachwedd 2019, lansiwyd Porth y Gorllewin yn ffurfiol fel partneriaeth strategol yn hyrwyddo ac yn sicrhau'r twf economaidd mwyaf posibl ar draws De Cymru a Gorllewin Lloegr i greu swyddi, hybu ffyniant a chefnogi prifysgolion a busnesau'r rhanbarth.

3.23 Bydd angen manteisio'n llawn ar y cryfderau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau yn y Porth Gorllewinol wrth greu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Datganiadau Ardal

3.24 Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi Datganiadau Ardal (DA) o dan adran 11 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), 2016. Datblygir y Datganiadau Ardal hyn er mwyn helpu i hwyluso gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol (PAN) Cenedlaethol ac adeiladu ar y dystiolaeth a nodir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN/SoNNAR). Cyhoeddwyd Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru (DADDdC) ar 1 Ebrill 2020. Mae wedi mynd ati ar raddfa tirwedd i ystyried ble a pham rydym am adeiladu gwydnwch ecosystemau o ran ardaloedd tirwedd arbennig ac unigryw De-ddwyrain Cymru. Cynhyrchwyd DADDdC i lywio cynllunio ac mae'n helpu rhanddeiliaid i ystyried gwahanol ffyrdd o gydweithio i fodloni'r pedair thema strategol:

1. **Cysylltu Ein Tirweddau - nodi cyfleoedd lleol ar gyfer ein safleoedd gwarchodedig, ein hamgylcheddau naturiol ac adeiledig sy'n cyfrannu at wydnwch rhwydweithiau cynefinoedd sydd â blaenoriaeth ehangach yn y rhanbarth.**

2. **Gwent Barod ar gyfer yr Hinsawdd – nodi cyfleoedd tirwedd a rhanbarthol ac ymyriadau ar y cyd ar gyfer addasu a lliniaru yn yr hinsawdd sy'n gwella ecosystemau lleol a gwydnwch cymunedol.**

3. **Iach Heini a Chysylltiedig – nodi cyfleoedd ac ymyriadau cydweithredol sy'n diogelu ac yn gwella iechyd a llesiant**

4. **Ffyrdd o Weithio – nodi manteision cydweithredu rhanbarthol strategol a nodi bod angen i ni wneud hynny ar raddfa ranbarthol er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran darpariaeth leol ac adnoddau naturiol.**

3.25 Mae'n ofynnol i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ystyried y DADDdC hwn a bod yn gyson ag ef a chaiff hyn ei farnu yn erbyn prawf cadernid adeg ei archwilio.

ACLlau Cyfagos

3.26 O ystyried yr amgylchiadau eithriadol sy'n cael eu profi drwy bandemig Covid-19, mae datblygu CDLl yn unol â Chytundebau Cyflawni y cytunwyd arnynt wedi bod yn her. Mae ACLlau wedi bwrw ymlaen â gwaith technegol, ond mae angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig i gytuno ar ffordd newydd ymlaen ar gyfer paratoi CDLlN. Nodir isod y cam y cyrhaeddodd ein awdurdodau cyfagos cyn Covid-19.

3.27 Mabwysiadodd Cyngor Dinas Caerdydd ei CDLl ar 28 Ionawr 2016. Mae gan y CDLl gyfnod cynllun o 2006-2026. Wedi pedwaredd blwyddyn ei fabwysiadu dechreuodd y Cyngor adolygu'r CDLl. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflawni yn gynnar yn 2020 ond oherwydd effaith Covid-19, mae'r ddau wrthi'n cael eu diweddaru a daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2021.

3.28 Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei CDLl ar 23 Tachwedd 2010. Mae gan y CDLl gyfnod cynllun o 2006-2021. Ar ôl ystyried yr ail AMB (2013), penderfynodd y Cyngor ddechrau gweithio ar Adolygiad o'r CDLl. Digwyddodd y CDLlN Adneuo yn gynnar yn 2016 ond ar 11 Hydref 2016, ar ôl derbyn gwrthwynebiadau gan Lywodraeth Cymru, penderfynodd y Cyngor dynnu'r CDLlN yn ôl. Ar 23 Hydref 2019 cytunodd y Cyngor i ddechrau gweithio ar adolygiad llawn o'r CDLl mabwysiedig ac mae wedi cynhyrchu adroddiad adolygiad drafft newydd. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i ddiweddaru (sy'n adlewyrchu sefyllfa Covid) yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a fydd yn dod i ben ar 29 Mawrth 2021. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal proses chwilio am safleoedd Ymgeisiol fydd yn dod i ben ar 31 Awst 2021.

3.29 Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei CDLl ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r CDLl yn cwmpasu'r cyfnod 2013-2021. Penderfynodd Cyngor Torfaen adolygu'r CDLl yn 2017. Dechreuodd y gwaith ar y CDLlN ar 10 Mawrth 2020 ar ôl cymeradwyo eu Cytundeb Cyflawni. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar ei Strategaeth a Ffefrir a fydd yn dod i ben ar 26 Mawrth 2021.

3.30 Mabwysiadodd Cyngor Sir Fynwy ei CDLl ar 14 Chwefror 2014. Mae gan y CDLl gyfnod cynllun o 2011-2021. Penderfynodd Cyngor Sir Fynwy adolygu'r CDLl yn 2017. Dechreuodd y gwaith ar y CDLlN ar 14 Mai 2018 yn dilyn cymeradwyo eu CC gan Lywodraeth Cymru; cyfnod y cynllun ar gyfer y CDLLN yw 2018-2033. Mae cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod ailedrych ar gamau Twf ac Opsiynau Gofodol a'r Strategaeth a Ffefrir ym mhroses y CDLlN. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar CC wedi'i ddiweddaru ym mis Hydref eleni a bydd y gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen newydd hon.

Cyd-destun Lleol

Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd ar Sail 2018

3.31 Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar sail 2018 ar 27 Chwefror 2020. Cafodd y rhain eu hailgyhoeddi wedyn ar 11 Mehefin 2020 yn diwygio gwall a ddarganfuwyd yn y datganiad data ym mis Chwefror. Mae'r amcanestyniadau'n rhoi syniad o faint a strwythur oedran posibl y boblogaeth yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2018 i 2043. Casnewydd sydd â'r cynnydd mwyaf a ragwelir o 5.1% yn y boblogaeth dros y blynyddoedd hyn. Yn yr un modd, cyhoeddwyd amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol 2018 ar 27 Chwefror 2020. Mae'r amcanestyniadau'n rhoi syniad o nifer yr aelwydydd a'u cyfansoddiad yng Nghymru yn y dyfodol. Unwaith eto, Casnewydd sydd â'r cynnydd mwyaf o 6.9% mewn aelwydydd. Bydd yr amcanestyniadau hyn yn sail i ddadansoddiad ar gyfer CDLl newydd ar gyfer Casnewydd.

[4] http://www.newport.gov.uk/documents/One-Newport/Local-Well-being-Plan-2018-23-English-Final.pdf

Cynllun Llesiant Lleol Casnewydd

3.32 O dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Sefydlodd Casnewydd BGC Casnewydd yn Un, a chyhoeddodd y bartneriaeth hon y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Casnewyddt[4] ar 1 Mai 2018.

3.33 Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu'r BGC ar gyfer y cyfnod 2018-2023. Yn gyntaf, mae'r Cynllun yn cymryd y saith nod Llesiant ac mae wedi nodi tri ar ddeg o flaenoriaethau. Yna datblygwyd pedwar amcan llesiant i gyflawni yn erbyn y nodau a'r blaenoriaethau Llesiant; sef:

1. **Mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol am fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi yng Nghasnewydd**
2. **Mae gan bobl sgiliau a chyfleoedd i ddod o hyd i waith addas a chyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy**
3. **Mae pobl a chymunedau yn gyfeillgar, hyderus ac wedi eu grymuso i wella eu llesiant**
4. **Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn**

3.34 Yn olaf, cytunwyd ar bum ymyriad integredig i sicrhau yr eir i'r afael â'r blaenoriaethau mewn modd sy'n canolbwyntio ac wedi'i dargedu. Mae gan bob un o'r pum ymyriad rywfaint o ddylanwad uniongyrchol neu anuniongyrchol dros broses y cynllun datblygu; sef:

- "Cynnig" Casnewydd – pecyn cyflawn dinas ddymunol i fyw a gweithio ynddi.
- Cymunedau Cadarn Cryf – mabwysiadu dull ataliol sy'n seiliedig ar leoedd.
- Sgiliau Cywir - Mynediad - i sgiliau ac addysg sy'n cyd-fynd â chyfleoedd cyflogaeth.
- Mannau Gwyrdd a Diogel – lle gwyrddach, iachach a mwy diogel gyda mynediad cyfartal i ofod o safon.
- Teithio Cynaliadwy – trafnidiaeth effeithlon, ddiogel a hygyrch gydag effaith isel ar yr amgylchedd.

3.35 Cafwyd adroddiadau blynyddol ar Gynllun Llesiant Casnewydd ers ei gyhoeddi ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'n ofynnol i Gynllun Llesiant gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl dyddiad pob etholiad arferol i'r awdurdod lleol, sef Mai 2022. Bydd y gwaith ar gyfer y cynllun llesiant nesaf yn gorgyffwrdd â datblygiad y CDLIN a bydd perthynas gydweithredol rhwng y ddwy broses yn cael ei chynnal. Bydd hyn yn sicrhau bod y CDLIN wedi rhoi sylw i'r Cynllun Llesiant wrth i'r ddau gael eu datblygu. Cydnabyddir bod y Cynllun Llesiant yn rhan sylfaenol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Cynllun Corfforaethol

3.36 Mae Cynllun Corfforaethol Casnewydd (2017-2022) yn nodi sut y bydd y Cyngor yn adeiladu ar lwyddiannau ac yn Adeiladu Casnewydd Well. Mae'r cynllun yn nodi sut y gwneir hyn drwy ganolbwyntio ar swyddi a'r economi, addysg a sgiliau, tegwch a chydraddoldeb, diogelwch cymunedol a chydlyniant, yr amgylchedd, trafnidiaeth, diwylliant a lles cymdeithasol. Mae gan y pedwar ymrwymiad a nodir yn y cynllun, Cymunedau Cadarn, Dinas Ffyniannus, Pobl Uchelgeisiol a Chyngor Modern, agweddau a fydd yn dylanwadu ar ffocws y CDLIN ac yn ei gyfeirio. Gellir gweld effaith y cynllun yn nhermau defnydd tir drwy ganolbwyntio ar gyflawni trosglwyddiadau asedau'r Cyngor, bodloni statws y ddinas sy'n ystyriol o ddementia, canolbwyntio ar ddatblygu mwy o BBaCh yn y Ddinas, delio â phroblemau parcio, cyfleusterau gwastraff newydd, cyfleusterau addysg a sgiliau gwell neu newydd, bodloni gofynion capasiti gofal cymdeithasol a darparu canolfannau gwasanaeth cymdogaeth.

3.37 Ategir y cynllun corfforaethol gan dair strategaeth gorfforaethol berthnasol – Strategaeth Ddigidol, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Strategaeth y Gymraeg. Mae'r Strategaeth Ddigidol (2015-2020), sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, yn nodi sut y bydd y Cyngor yn galluogi cysylltedd ac yn cynyddu mynediad at wasanaeth. Y ffocws yw i Gasnewydd ddod yn ddinas ddigidol sy'n grymuso ei dinasyddion, ei chwsmeriaid a'i busnesau drwy ddefnyddio gwasanaethau digidol yn arloesol. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024) yn ddarn annatod o wybodaeth ar gyfer y gwaith Asesu Integredig a wneir ar gyfer CDLIN. Mae Strategaeth y Gymraeg (2017-2022) yn nodi gweledigaeth y gall 'pobl Casnewydd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd'. Bydd y CDLIN yn ystyried nodau'r

strategaeth hon wrth gynnal ei hasesiad o'r effaith ar yr iaith, ac wrth baratoi'r cynllun, yn ogystal â'r goblygiadau uniongyrchol o ran defnydd tir e.e. darparu ysgolion Cymraeg.

3.38 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n ddiweddar i'r Siarter Gwneud Lleoedd Cymru; drwy ymuno â Siarter Gwneud Lleoedd Cymru, mae'r Cyngor yn addo:

- Cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion
- Dewis lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd
- Rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Creu strydoedd a mannau cyhoeddus diogel a chroesawgar sydd wedi'u diffinio'n dda
- Hyrwyddo cymysgedd cynaliadwy o ddefnyddiau i wneud lleoedd yn fywiog
- Gwerthfawrogi a pharchu rhinweddau a hunaniaeth unigryw gadarnhaol lleoedd sy'n bodoli eisoes.

3.39 Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i'r Siarter Teithio Iach ar gyfer Gwent. Mae'r siarter hon yn ymrwymo'r un ar hugain o sefydliadau sector cyhoeddus blaenllaw hynny yng Ngwent i gefnogi ac annog staff i deithio mewn ffordd gynaliadwy i'r gwaith ac yn ôl. Trwy 15 cam gweithredu uchelgeisiol, mae'r siarter yn hybu cerdded, beicio, gweithio ystwyth a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn. Y nod yw cynyddu cyfran y teithiau cynaliadwy a wneir i leoedd gwaith ac yn ôl, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwella iechyd pobl Gwent ar gyfer y genhedlaeth bresennol a'r rhai sydd i ddod.

Cynlluniau a Strategaethau eraill y Cyngor

3.40 Mae'r cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol wedi gweld llawer o newid, ac adlewyrchir hyn yn rhaglen waith y Cyngor ei hun. Mae nifer o gynlluniau a strategaethau perthnasol wedi'u creu ers mabwysiadu'r CDLl a fydd yn darparu dull wedi'i ddiweddaru neu newydd o ymdrin â materion lleol. Ceir crynodeb o'r cynlluniau a'r strategaethau mwyaf perthnasol isod:

3.41 **Mae Strategaeth Twf Economaidd Casnewydd (STE) fabwysiadwyd yn 2015, yn ymrwymo i weledigaeth a fframwaith deng mlynedd ar gyfer adeiladu economi Casnewydd. Ers 2015, mae Casnewydd wedi dod yn ddinas fwy cystadleuol gyda dylanwad cynyddol mewn sectorau gwerth uchel. Rydym wedi datblygu llu o lwybrau hyfforddi a datblygu ar gyfer gweithwyr yn y dyfodol ac mae'r Ddinas yn gweld sector twristiaeth sy'n ehangu'n gyflym. Erbyn hyn, mae gan Gasnewydd ran ganolog yn llwyddiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Phartneriaethau Porth y Gorllewin ac fel sefydliad rydym yn croesawu ffyrdd newydd o weithio. Diweddarwyd y Strategaeth Twf Economaidd, a adnewyddwyd ym mis Chwefror 2020, i sicrhau bod Casnewydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i alluogi a hwyluso twf yn ogystal â chanmol adfywiad ffisegol parhaus y Ddinas. Cynhyrchwyd atodiad adfer (2020) ar gyfer y STE gan y Cyngor ym mis Mehefin 2020 i nodi sut y bydd y Cyngor yn cefnogi sefydlogrwydd a thwf economaidd y ddinas yn sgil pandemig y coronafeirws.**

Afon Wysg gyda'r nos

3.42 **Mae Uwchgynllun Canol Dinas Casnewydd (2019 – 2029) yn nodi fframwaith strategol y Cyngor ar gyfer adfywio Canol y Ddinas. Diweddarwyd hwn yn 2019 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma a chafodd gweledigaeth a set newydd o brosiectau blaenoriaeth eu cymeradwyo.**

3.43 Mae gofynion Deddf Teithio Llesol 2013 wedi golygu bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â chyfres o Fapiau Llwybrau presennol ac integredig; bydd hyn yn darparu sail dystiolaeth newydd ar gyfer gwaith CDLIN ar faterion teithio cynaliadwy. Mae rôl glir wedi'i nodi i'r system gynllunio hwyluso teithio llesol, a bydd angen i'r CDLIN ystyried allbynnau gofynion deddfwriaethol y ddeddf. Mae'r cynllun gweithredu cenedlaethol hwn yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru a sut y cyflawnir y symudiad diwylliannol hwn tuag at flaenoriaethu teithio llesol e.e. drwy ddatblygiadau, polisi cynllunio, rhwymedigaethau cynllunio ac ati.

3.44 **Mabwysiadwyd Strategaeth Wastraff Casnewydd (2019-2025)** ym mis Chwefror 2020 ac mae hwn yn nodi'r amcanion, y cynlluniau gweithredu a'r rhaglen fonitro i sicrhau bod yr holl elfennau sy'n gysylltiedig â gwell ailgylchu yn cael eu gyrru'n strategol a'u monitro'n gadarn. Mae camau gweithredu sy'n seiliedig ar ddefnydd tir yn cynnwys darparu cyfleusterau newydd megis canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

3.45 **Mae Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2019** yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n amlinellu sut mae'r sefydliad wedi mynd i'r afael â'i ddyletswydd bioamrywiaeth ac, o ganlyniad, yn cyflawni ei amcanion Llesiant ac amcanion y Cynllun Adfer Natur. Mae'r adroddiad yn dangos ymagwedd gadarnhaol ac yn amlygu'r prosiectau a'r uchelgeisiau hynny ar gyfer gweithio yn y dyfodol a all ddarparu tystiolaeth a mewnbwn perthnasol i CDLIN. Un o nodau'r Cyngor, a'r BGC, yw datblygu Cynllun Seilwaith Gwyrdd. Bydd cynllun o'r fath a'r dystiolaeth yn gefn iddo yn addysgiadol allweddol ar gyfer CDLI newydd ac yn bodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer asesiad o'r fath.

3.46 Mae gan Gasnewydd 11 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA/AQMA) ac ers mabwysiadu'r CDLI datblygwyd CCA i sicrhau yr ymdrinnir yn ddigonol ag effeithiau ansawdd aer drwy'r drefn ceisiadau cynllunio. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol 7 a'r dyraniadau datblygu newydd o fewn y CDLIN yn golygu y bydd angen i'r cynllun ystyried yr effaith ar ansawdd aer ar y lefel strategol. Bydd Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor a bydd gwaith sy'n gysylltiedig â hyn yn llywio CDLIN. Mae cyhoeddi Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020) yn diweddar yn nodi'r pwnc hwn yn glir fel pryder. Bydd CDLIN yn ystyried ei effaith a'r rôl y gall cynllunio ei gymryd i helpu i fynd i'r afael ag achosion o ansawdd aer gwael.

3.47 Mae perygl llifogydd yn bryder allweddol i ardal Casnewydd, ac un math o reoli dŵr y gall y system gynllunio ddylanwadu arno yw'r datrysiad Draenio Cynaliadwy (DC) ar gyfer datblygiadau newydd. Sefydlodd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) greu Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (CCC) mewn awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldeb statudol i'r cyrff hynny dros gymeradwyo ac mewn amgylchiadau penodol, mabwysiadu'r systemau draenio cymeradwy. O 7 Ionawr 2019, mae angen system ddraenio gynaliadwy (SDC) ar gyfer dŵr wyneb ar bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu dros 100 metr sgwâr. O'r dyddiad hwn ymlaen, rhaid i SDCau ar ddatblygiadau newydd gael eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol â Safonau SDCau Statudol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan CCC yr awdurdod lleol cyn dechrau ar y gwaith adeiladu. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith ar ofynion datblygu a gwaith asesu llifogydd yn y dyfodol a wneir ar gyfer y CDLIN.

3.48 **Mae Strategaeth Reoli a Chynllun Gweithredu Cyrchfannau Casnewydd** yn cydnabod cryfderau Casnewydd ac yn mynd i'r afael â gwendidau Casnewydd fel cyrchfan, gan nodi'r camau allweddol sydd eu hangen i wella profiad ymwelwyr, yn ogystal â chamau gweithredu parhaus sy'n sail i hyn. Mae twristiaeth yn hanfodol i economi Casnewydd, sydd wedi gweld newid trawsnewidiol mewn swyddi

o ddiwydiant trwm a gweithgynhyrchu i swyddi yn y sector cyhoeddus a diwydiannau gwasanaeth, y mae twristiaeth yn sector hollbwysig sy'n cynrychioli tua 5% o gyfanswm y gweithlu. Mae pwysigrwydd chwaraeon a thwristiaeth a digwyddiadau i Gasnewydd yn parhau i gynyddu gydag atyniad Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Felodrom Cenedlaethol, gwell cyfleusterau yn Rodney Parade, Canolfan y Confensiwn Rhyngwladol, a lleoliad y Cwpan Ryder yn y Celtic Manor. Cafodd pwysigrwydd digwyddiadau o'r fath eu nodi'n glir yn y strategaeth CDLl mabwysiedig.

Pandemig Covid-19

3.49 Mae argyfwng iechyd Covid-19 wedi creu her sylweddol a digynsail ac nid yw ei effaith ar fusnesau a normau cymdeithasol yn glir eto. Bydd angen ystyried rôl cynllunio i gynorthwyo unrhyw adferiad economaidd a chymdeithasol yn y sail dystiolaeth ar gyfer unrhyw CDLl newydd. Mae'r ffaith bod pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith enfawr ar y ffordd y mae pobl yn gweithio, teithio, defnyddio mannau gwyrdd agored yn drawiadol Mae hefyd wedi cael effaith o ran y gostyngiad yng nghyfraddau cyflenwi anheddau, a datblygiad yn gyffredinol, ac mae'n anochel ein bod yn disgwyl cofnodi bod llai o anheddau wedi'u cwblhau yn 2020; rydym yn obeithiol y bydd cyfraddau cyflawni'n gwella o 2021 a thu hwnt. Mae'r Cyngor wedi gosod ei nodau adfer strategol ger bron sy'n amlinellu sut y byddwn yn parhau i adeiladu Casnewydd well. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at atodiad i'r Strategaeth Twf Economaidd sy'n nodi sut mae byd busnes yn cael ei gefnogi yn ystod yr argyfwng hwn (gweler uchod). Mae gan gynllunio rôl i'w chwarae wrth ddelio ag effeithiau'r pandemig hwn a chaiff hyn ei adlewyrchu mewn cynllun newydd.

Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)

3.50 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd ac Adferiad Covid-19' ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i weithredu yn y cyfnod adfer ar ôl argyfwng y pandemig COVID. Mae'r canllawiau'n rhoi'r system gynllunio yn ganolog wrth ystyried materion adeiladu a'r amgylchedd naturiol sydd wedi codi o'r pandemig. Mae'r papur yn amlygu'r polisïau a'r offer presennol i'w defnyddio ar gyfer cynllunwyr tuag at eu nod o leoedd gwell i fyw ynddynt ac ymlacio ynddynt. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ein hamgylcheddau drwy'r argyfwng hwn ac er y dylai'r system wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi adferiad economaidd, nid yw hyn i fod ar draul ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol; mae'r agenda creu lleoedd i'w chroesawu gan bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio. Mae'r eglurhad hwn i'w groesawu a bydd yn llywio ffocws sut i ymdrin â'r effaith ar y pandemig mewn CDLl yn y dyfodol.

4. Canfyddiadau Allweddol AMB

4.1 Fel y cynghorir yn Llawlyfr y CDLl, dylai adolygiad o'r cynllun, ymhlith pethau eraill, ddefnyddio canfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) cyhoeddedig. Cyhoeddwyd AMB diweddaraf Casnewydd ym mis Hydref 2020 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

4.2 Yn gyffredinol, mae'r CDLl wedi cael effeithiau cadarnhaol ac mae'r fframwaith polisi wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau datblygu gwirioneddol gynaliadwy. Mae'r tabl isod yn nodi crynodeb o'r pum AMB blaenorol, ac yna dilynir hyn gan drosolwg cyflym o asesiadau ac argymhellion pob AMB.

Dangosyddion	**2016**	**2017**	**2018**	**2019**	**2020**
Cyd-destunol					
Cadarnhaol	2	1	3	3	1
Cymysg	1	0	0	1	0
Negyddol	1	3	1	0	3
Craidd a Lleol					
Cadarnhaol	21	16	17	19	16
Hyfforddiant sydd ei Angen	6	7	5	5	6
CCA angenrheidiol	0	0	0	0	0
Ymchwil Pellach	7	12	13	11	13
Adolygiad Polisi	1	0	0	0	0
Adolygiad o'r Cynllun	0	0	0	0	0
Arfarniad Cynaliadwyedd					
Syl Gadarnhaol	37	44	53	41	44
Effeithiau Cymysg	18	30	22	34	29
Syl Negyddol	0	4	2	1	2
Dim data/ gwaelodlin	29	6	7	8	9

4.3 Gosodwyd y gwaelodlin ar gyfer monitro yn AMB 2016. Daeth i'r casgliad bod cynnydd sylweddol cyffredinol wedi'i wneud, yn enwedig o ran twf tai a bod y strategaeth yn cael ei chyflawni. Roedd y gwaith o ddarparu tir cyflogaeth yn mynd rhagddo ond nid ar y gyfradd a ragwelwyd. Dim arwydd bod angen adolygiad llawn neu rannol

4.4 Ar gyfer AMBau 2017 a 2018 y casgliad unwaith eto oedd, cynnydd sylweddol yn cael ei wneud gan gyfeirio'n benodol at dwf tai. Hefyd, roedd y strategaeth, y nodau a'r amcanion allweddol yn cael eu gwireddu. Nodwyd ymchwil ar bynciau gan gynnwys manwerthu, perygl llifogydd a darparu llety Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal â phryder ynghylch colli cyfleusterau cymunedol, lleihau nifer yr ymwelwyr i ganol y ddinas a diffyg cynnydd o ran nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Roedd y strategaeth, y nodau a'r amcanion allweddol yn cael eu gwireddu ac nid oedd unrhyw arwydd o adolygiad llawn na rhannol o'r CDLl.

4.5 Daeth AMB 2019 i'r casgliad bod cynnydd sylweddol yn dal i gael ei wneud, yn enwedig o ran twf tai a darparu tir cyflogaeth. Roedd y strategaeth a phrif nodau ac amcanion y CDLl i gyd yn dal i gael eu cyflawni. Nodwyd perygl llifogydd a darparu llety tramwy Sipsiwn a Theithwyr unwaith eto. Roedd y CDLl yn dod i'w bumed pen-blwydd (Ionawr 2020) a chyfeiriwyd at y gofyniad i adolygu bob pedair blynedd. Yn benodol, mae llwyddiant safleoedd tai dynodedig yn golygu bod angen dyraniadau pellach. Dyma'r tro cyntaf i CDS gael ei nodi a fyddai hefyd yn sbarduno adolygiad CDLl. Daethpwyd i'r casgliad y byddai trafodaethau gydag Aelodau a LlC yn dechrau ar yr angen am adolygiad.

4.6 Yn olaf, daeth AMB 2020 i'r casgliad am y bumed flwyddyn fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud, yn enwedig o ran twf tai a darparu tir cyflogaeth. Mae'r Strategaeth nodau ac amcanion yn dal i gael eu cyflawni. Unwaith eto nodwyd nifer yr ymwelwyr â Chanol y Ddinas, perygl llifogydd a llety tramwy sipsiwn a theithwyr. Tynnwyd sylw at fynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol a chydnabuwyd yr angen am safleoedd preswyl ychwanegol. Nodwyd hefyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn argymell cynnal adolygiad gan ein bod yn amlwg wedi pasio'r trothwy pedair blynedd. Yn ogystal, mae'r FfDC ar ei ffordd a bydd yn arwain at ganlyniadau clir i ardal Casnewydd. Mae'r rhan y gall cynllunio ei chwarae yn yr adferiad economaidd yn dilyn Covid hefyd yn allweddol. Felly, argymhelliad yr AMB oedd cynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl. Yr adroddiad adolygu hwn yw'r cam cyntaf tuag at symud tuag at CDLl newydd.

Parhau ag arfer da

4.7 Mae fframwaith polisi CDLl wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl ffordd gan gynnwys: cyflawni ei strategaeth tir llwyd; mae'r cyflenwad tai wedi'i ddarparu'n bennaf ar safleoedd dynodedig; mae fframwaith polisi clir i annog cynlluniau ynni adnewyddadwy; dim gwrthwynebiadau gan Dŵr Cymru; mae Casnewydd yn cyrraedd ei thargedau creu swyddi; mae coed a choetiroedd yn cael eu gwarchod ac mae'r Cyngor yn cyrraedd ac yn rhagori ar dargedau gwastraff.

4.8 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi rhagweld effeithiau cadarnhaol sylweddol o weithredu'r CDLl gan gynnwys: sicrhau lefelau da o fynediad i fannau gwyrdd naturiol o ddatblygiadau preswyl newydd; nid yw llygredd dŵr wedi'i nodi fel pryder; mae defnydd o drydan fesul aelwyd yn lleihau. Ni chollwyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus, SDdCNau, tir glas, colli coetiroedd, colli tir amaethyddol gwerthfawr, oni bai bod y colledion wedi bod yn unol â pholisïau'r CDLl. Dim gwrthwynebiadau gan swyddog pensaernïol polisi; cynnydd mewn addysg Gymraeg; mae mwy o ddefnydd o'r rheilffyrdd ac mae'r tai fforddiadwy a gyflawnwyd yng nghyfnod y cynllun wedi bodloni'r Safonau Dylunio Cenedlaethol.

4.9 Mae'n bwysig deall y llwyddiannau a wnaed hyd yma i sicrhau bod y fframwaith polisi yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol.

Gwastadeddau Gwent

Pynciau AMB i'w harchwilio ymhellach

4.10 Mae'n anochel bod yn abynciau sy'n haeddu ffocws penodol i fyfyrio ar eu heffaith a rhoi arweiniad clir nid yn unig i lefel yr adolygiad sy'n ofynnol ar gyfer y CDLl ond i roi trosolwg o'r materion allweddol i CDLl newydd eu hystyried.

Cyflenwi Tai

4.11 Mae'r cyfraddau darparu tai a gyflawnwyd ers mabwysiadu'r CDLl wedi bod yn drawiadol a Chasnewydd yw un o'r ychydig awdurdodau yng Nghymru i sicrhau cyflenwad tir cyson ar gyfer tai dros 5 mlynedd. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y ddarpariaeth tai a gyflawnwyd hyd yma.



FFIGUR: 1 CYFLAWNIAD TAI CDLL

4.12 Ar ôl ystyried, mae'r data'n dangos bod 86% o'r tai a gyflawnwyd wedi'u darparu ar safleoedd y CDLl a ddyrannwyd i dai, gyda'r lefel uchaf gyflawniadau hap-safle yn digwydd yn chweched blwyddyn y cynllun. Mae'n bosibl y bydd y ddibyniaeth ar hap-safleoedd yn cynyddu wrth i safleoedd dynodedig gael eu cwblhau, gan leihau eglurder i ddatblygwyr, a thanseilio'r dull a arweinir gan gynllun. Yn ogystal, mae 94% o dai wedi'u darparu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, sy'n gyson â strategaeth y CDLl. Er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy, argymhellir bod y ffocws ar safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol lle y bo'n bosibl.

4.13 Mae gan y CDLl ddau safle tai strategol sydd wedi bod yn destun monitro penodol. Mae'r ddau safle yn mynd rhagddynt ac yn parhau i fod yn gyflenwad pwysig o dai i'r Cyngor, er bod y gyfradd gyflenwi wedi bod yn is na'r gyfradd y cytunwyd arni yn y CDLl. Ceir dadansoddiad o'r oedi yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl yn Amcanion Monitro MT4OB4&5.

Bydd yr angen am ddyraniadau a manylion monitro penodol yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw CDLl newydd.

4.14 Nid yw'n glir a ellir darparu ar gyfer lefelau twf yn y dyfodol yn bennaf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol dros gyfnod nesaf y cynllun. Yn ogystal, mae'r FfDC yn tynnu sylw at Gasnewydd fel ardal ar gyfer twf cenedlaethol a bydd hyn yn amlwg yn effeithio ar lefel y gofynion tir. Mae amcanestyniadau poblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd 2018 yn dangos mai Casnewydd sydd â'r lefel uchaf o dwf yn genedlaethol. Bydd yr angen i integreiddio cyflogaeth a thai hefyd yn rhoi pwysau ar y defnydd o dir llwyd oddi ar ddefnyddiau eraill. Nid yw effaith Covid 19 ar gyfraddau adeiladu wedi'i meintioli eto ond rydym yn rhagweld cyfraddau iachach o 2021 sy'n golygu ein bod yn parhau mewn sefyllfa gref i gyrraedd gofyniad y CDLl erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae llwyddiant y safleoedd tai dynodedig yn golygu, gyda'r lefelau cwblhau presennol a dilyniant clir llawer o safleoedd eraill a ddyrannwyd, bod hyn yn golygu y bydd angen dod o hyd i safleoedd newydd i barhau â'r cyflawniad llwyddiannus hwn er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai yn cael ei gynnal.

Tai Fforddiadwy

4.15 Cafwyd canlyniad eithriadol o ran cyflawni 94% o'r targed tai fforddiadwy ar gyfer 2015-2020 hyd yma. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel uwch o gynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghasnewydd. Roedd targed y CDLl yn adlewyrchu darpariaeth realistig a ragwelwyd o'r broses gynllunio. Hynny yw, nid oedd y targed tai fforddiadwy yn adlewyrchiad uniongyrchol o'r holl angen am dai yng Nghasnewydd. Mae'r lefel hon o angen yn ddifrifol, ac mae'r system gynllunio yn parhau i fod yn un ffordd o ddarparu cyflenwad i ateb y galw. Felly, mae angen asesiad o'r angen am dai, sy'n gysylltiedig â'r adran flaenorol ar ddarparu tai, a bydd hyn yn darparu dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o'r angen am dai yng Nghasnewydd.

4.16 Bydd dyrannu safleoedd newydd, ystyried ardaloedd is-farchnad, trothwyon polisi ac effeithiau ar hyfywedd i gyd yn sicrhau bod CDLl yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol. Mae monitro wedi dangos bod angen

gwneud gwaith ymchwil pellach ar y mater hwn oherwydd, yn ymarferol, nid yw lefel y cyfraniadau bob amser yn bodloni'r hyn sy'n ofynnol gan bolisi. Felly, mae'n allweddol bod gwaith yn cael ei wneud ar y mater hwn i sicrhau bod canrannau priodol yn cael eu pennu i adlewyrchu'r cynnydd ym mhrisiau tai a chostau adeiladu cyfredol.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

4.17 Mae'r CDLl wedi darparu safle Sipsiwn a Theithwyr preswyl sy'n cwmpasu'r angen a nodwyd a nodir yn y Ddarpariaeth Llety i Sipsiwn a Theithwyr (DLlST/GTAA) ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'r broses DLlST yn parhau a bydd angen i CDLl yn y dyfodol ystyried a yw asesiad wedi'i ddiweddaru yn nodi unrhyw angen pellach am lety o'r fath. Mae'r asesiad hwn hefyd yn ystyried yr angen am lety tramwy, nad yw wedi'i ddarparu eto gan y CDLl presennol. Bydd cyflwyno'r broses CDS yn caniatáu i'r mater hwn gael ei ystyried ar y raddfa ranbarthol, sy'n cael ei ystyried yn raddfa lawer mwy priodol. Daethpwyd i'r casgliad felly y dylai proses y CDLlN ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth DLlST ac adlewyrchu'r canlyniad yn ei ddyraniad a'i ddatblygiad polisi.

Cyflenwi Tir Cyflogaeth

4.18 Mae'r strategaeth ar gyfer y CDLl yn nodi targed uchelgeisiol ar gyfer twf cyflogaeth o ran cyflenwi tir a chreu swyddi. Mae nifer y swyddi a grëwyd dros gyfnod y cynllun yn uwch na'r tueddiadau a ragwelir ac mae cyfraddau gweithgarwch economaidd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac er bod lefel y datblygiadau a ragwelir ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn is na'r disgwyl, ystyrir bod bwlch datblygu o ran cyflawni yn hytrach na phryderon penodol ynghylch y dyraniadau tir. Bu rhywfaint o golli tir cyflogaeth i ddefnyddiau eraill, ond nid yw'r un ohonynt wedi'i gymeradwyo ar ddyraniad tir cyflogaeth. Mae cyflenwad tir 13 mlynedd yn dal i fod ar gael ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yng Nghasnewydd. Serch hynny, bydd y gyfradd twf sy'n ofynnol ar gyfer y cyflenwad tai ar gyfer cyfnod nesaf y cynllun ac effaith y pandemig byd-eang a'r ffordd y mae'n dylanwadu ar sut rydym yn gweithio yn y dyfodol, yn gofyn am adolygiad o lefel y cyflenwad tir ar gyfer creu swyddi a chyflogaeth er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn gadarn ac wedi ei ystyried yn drylwyr.

Nifer yr ymwelwyr â Chanol y Ddinas

4.19 Yn anffodus, mae nifer yr ymwelwyr â Chanol y Ddinas wedi bod yn gostwng ers sawl blwyddyn a bydd effaith y pandemig ond wedi gwaethygu hyn. Nid yw hyn yn unigryw i Gasnewydd, ond mae'n werth nodi'r buddsoddiad diweddar sy'n dangos hyder y marchnadoedd yng Nghasnewydd. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae'r canol wedi gweld cwblhau datblygiad Friars Walk sydd wedi rhoi ffocws manwerthu a hamdden i ganol y ddinas. Gwerthfawrogwyd yn archwiliad y CDLl unwaith y byddai'r ailddatblygiad hwn wedi digwydd y byddai gofyn ystyried ei effaith a bydd hyn yn ystyriaeth allweddol i'r Cyngor yn yr adolygiad. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith i ddarparu sail dystiolaeth gyfredol ar y mater hwn at ddibenion rheoli datblygu drwy gomisiynu Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Nexus (2019). Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Uwchgynllun Canol Dinas a'r strategaeth twf economaidd a'r atodiad, fel y nodir yn adran 3.36 yr adroddiad hwn. Yn amlwg, bydd yn rhaid i CDLl newydd ystyried yr heriau hyn sy'n wynebu canol y ddinas a myfyrio ar ymarferoldeb y gofod dros y pymtheg mlynedd nesaf.

Perygl Llifogydd

4.20 Mae lleoliad Casnewydd ar lannau Aber Afon Hafren, Afon Wysg sy'n rhannu'r Ddinas, y rhwydwaith cymhleth o ddyfrffyrdd ar Wastadeddau Gwent a'r gwahanol ffynonellau dŵr glawog ac afonol eraill o fewn ei ffin yn golygu bod rheoli perygl llifogydd a gwydnwch yn ystyriaeth allweddol i'r CDLl. Bydd y diweddariad arfaethedig i'r polisi cynllunio cenedlaethol, drwy Nodyn Cyngor Technegol 15 a chynhyrchu Mapio Llifogydd Cymru Gyfan newydd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLl ystyried y cyd-destun polisi a'r thystiolaeth yma a ddiweddarwyd. Bydd angen Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y CDLlN er mwyn sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw ddyraniadau newydd o ran unrhyw effaith ar berygl llifogydd.

Cymudo allan

4.21 Nodir lefel y cymudo allan o Gasnewydd i ardaloedd eraill ond nid yw'n cael ei ystyried yn bryder sylweddol. Mae lleoliad strategol Casnewydd a'i agosrwydd at Gaerdydd a Bryste yn golygu y bydd cymudo allan bob amser yn ffactor, ond bydd angen i'r cynllun ystyried sut i leihau hyn er mwyn gallu creu dinas gynaliadwy. Mae llawer o ffactorau i'w hystyried o fewn strategaeth y cynlluniau i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer lefelau priodol o dir cyflogaeth fel y gallwn sicrhau ein bod yn darparu swyddi yn ogystal â thai.

Hygyrchedd cyfleusterau

4.22 Ers mabwysiadu'r CDLl mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Mynegai Amddifadedd Lluosog wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cymru (2019). Defnyddir hyn fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer CDLl newydd, yn enwedig gan ddefnyddio'r adran 'mynediad at wasanaethau' fel offeryn i ddeall ble y gallai'r cynllun ganolbwyntio ar ddatrys unrhyw bryderon hysbys o ran hygyrchedd cyfleusterau.

Adolygiadau Polisi

4.23 Mae Adran 5.3 yr adroddiad hwn yn nodi asesiad o fframwaith polisi cyfredol y CDLl. Mae'n werth nodi bod nifer o bolisïau yn y CDLl sydd wedi'u hamlygu yn yr AMBau blaenorol y mae angen ymchwilio iddynt yn benodol fel bod eu heffeithiolrwydd yn cael ei gryfhau mewn CDLl yn y dyfodol. Dyma'r meysydd hynny:

- Cyfleusterau Cymunedol
- Ardal Diogelu Mwynau
- Defnyddiau Amgen Tir Cyflogaeth
- Colli Gofod Amgylcheddol
- Safle o Werth Hanesyddol
- Dwyseddau Datblygu



Adlewyrchiad o Bont y Dref

5. Newidiadau Posibl Sydd Eu Hangen

5.1 Adolygiad o Weledigaeth, Materion ac Amcanion y CDLl

Gweledigaeth y CDLl

5.1.1 Datblygwyd y Weledigaeth er mwyn ddarparu craidd y CDLl, gan yrru'r newidiadau arfaethedig ar gyfer Casnewydd ymlaen o 2011. Deilliodd datblygiad y Weledigaeth o Strategaeth Gymunedol Casnewydd (2005-2015), lle cafodd yr elfennau hynny sy'n ymwneud â ac a effeithiwyd gan ddefnydd tir eu cynnwys.

GWELEDIGAETH CDLl (2011-2026)

Fel porth i Gymru, bydd Casnewydd yn ganolfan adfywio sy'n dathlu ei diwylliant a'i threftadaeth, wrth fod yn ganolfan ar gyfer twf economaidd amrywiol a fydd yn atgyfnerthu ei chyfraniad i'r rhanbarth. Bydd yn lle y bydd pobl yn ei adnabod fel Dinas fywiog a deinamig sy'n tyfu, gyda chymunedau sy'n byw'n gytûn mewn amgylchedd naturiol unigryw.

5.1.2 Ers mabwysiadu'r CDLl, disodlwyd y Strategaeth Gymunedol gan Gynllun Integredig Sengl a ddisodlwyd gan y Cynllun Llesiant Lleol; un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Nodir amcanion y cynllun yn adran 4 a bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2021 ar Gynllun Llesiant wedi'i ddiweddaru i'w gyhoeddi yn 2023. Mae'r broses adolygu hon yn gyfle i ystyried goblygiadau'r cyd-destun presennol, ers mabwysiadu'r CDLl, a sicrhau bod y Weledigaeth wedi'i geirio'n briodol.

Amcanion y CDLl

5.1.3 Cyflawnir Gweledigaeth y CDLl drwy ddeg Amcan Cynllun sy'n ceisio sicrhau bod strategaeth datblygu cynaliadwy yn cael ei chyflawni. Datblygwyd y deg amcan yn benodol ar gyfer y CDLl gan Bum Amcan Corfforaethol y Cyngor (Dinas Ofalgar, Tecach, sy'n Dysgu a Gweithio, Gwyrddach ac Iachach a Diogelach). Cawsant wedyn eu mireinio drwy ymgynghori â'r cyhoedd.

5.1.4 Adolygiad o amcanion y CDLl yn erbyn Saith Nod Llesiant Cymru[5] wedi'i nodi isod. Mae'r tabl yn dangos pa rai o'r saith nod llesiant sy'n cael eu cyflawni gan bob amcan.

[5] I gael manylion y Nodau Llesiant ewch i: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/.

Amcanion y CDLl	Nodau Llesiant						
	Cymru Lewyrchus	Cymru Wydn	Cymru Iachach	Cymru Fwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang
1. Defnydd Cynaliadwy o Dir Sicrhau bod pob datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau naturiol drwy geisio lleoli datblygiadau yn y mannau mwyaf cynaliadwy, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymunedau lleol.							
2. Newid yn yr Hinsawdd Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leihau'r ffactorau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau, ac addasu neu liniaru'r ffactorau hynny drwy ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy, newidiadau i'r dulliau teithio a ddefnyddir, rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd, a gwella effeithlonrwydd o ran y defnydd o ynni, gwastraff a dwr.							
3. Twf Economaidd Galluogi economi amrywiol sy'n diwallu anghenion pobl Casnewydd a rhanbarth economaidd ehangach De-ddwyrain Cymru							
4. Darpariaeth Tai Sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer tai yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, a sicrhau bod nifer, ansawdd, ac amrywiaeth y tai yn diwallu anghenion y boblogaeth. Yn ogystal, hybu creu lleoedd sy'n cyfrannu at nodweddion unigryw lleol a chymunedau llewyrchus.							
5. Diogelu'r Amgylchedd Adeiledig Sicrhau nad yw'r holl ddatblygiadau neu'r defnydd o dir yn effeithio'n andwyol ar ansawdd yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig ac yn ceisio cadw neu wella'r amgylchedd hwnnw.							
6. Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys y dirwedd, cynefinoedd gwarchodedig a rhywogaethau pwysig iawn o ran bioamrywiaeth yng Nghymru (ni waeth p'un ai'n safle maes glas neu safleoedd tir llwyd) a gwarchod dyfroedd a reolir.							
7. Cyfleusterau a Seilwaith Cymunedol Sicrhau y darperir cyfleusterau cymunedol newydd, a/neu wella'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes, a diogelu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes a ddefnyddir yn fynych.							

8. Diwylliant a Hygyrchedd Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn hygyrch yn gymdeithasol ac yn gorfforol i bawb, gan ystyried anghenion pob unigolyn.							
9. Iechyd a Llesiant Cynnig amgylchedd sy'n ddiogel, sy'n annog pobl i wneud dewisiadau iach ac sy'n hybu llesiant.							
10. Gwastraff Sicrhau bod dewisiadau o ran rheoli gwastraff yn seiliedig ar yr egwyddor agosatrwydd, lle y bo'n briodol, a bod hierarchaeth o leihau, ailddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel ar waith, a bod cyfleusterau digonol ar gael i alluogi hyn.							

5.1.5 Mae amcanion presennol y CDLl yn cyfrannu'n glir at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Mae rhai amcanion yn cyflawni ar draws pob un o'r saith nod ac mae iddynt ganlyniadau aml-fudd clir. Bydd unrhyw newidiadau i'r CDLl a'i amcanion yn cael eu llywio gan y Nodau Llesiant a'u llunio yn unol â hwy.

5.2 Adolygiad o Strategaeth y CDLl

5.2.1 Elfennau allweddol y strategaeth ofodol bresennol yw:

- gwneud y defnydd mwyaf o safleoedd tir llwyd i sicrhau cynaliadwyedd, adfywio, cydlyniant cymunedol a ffurfwaith drefol;
- datblygu Ardal Ehangu Ddwyreiniol y Ddinas, gan ganolbwyntio ar ardal hen Waith Dur Llan-wern;
- adfywio craidd manwerthu Canol y Ddinas;
- diogelu'r dirwedd, gan gynnwys cynnal y Llain Las statudol ar ffin Caerdydd;
- cadw safleoedd a rhywogaethau a ddiogelir, a hybu bioamrywiaeth;
- meithrin twf y Ddinas yn unol â'i rôl yn y rhanbarth, ei manteision o ran lleoliad a'i hymdeimlad unigryw o le;
- adeiladu ar lwyddiant cyfleusterau chwaraeon Casnewydd sydd o safon genedlaethol a rhyngwladol

O ran mesur pa mor llwyddiannus fu gweithredu'r strategaeth, trafodir pob pwynt isod.

Gwneud y defnydd mwyaf o safleoedd tir llwyd i sicrhau cynaliadwyedd, adfywio, cydlyniant cymunedol a ffurfwaith drefol;

5.2.2 Dewis cyffredinol strategaeth y CDLl presennol oedd datblygu tir o fewn y ffin drefol gan ganolbwyntio'n benodol ar safleoedd a ddatblygwyd eisoes. Roedd adfywio, felly, yn elfen allweddol o'r strategaeth lle mae angen gwella safleoedd gwag neu safleoedd sy'n dirywio er budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Cyfeiriwyd y ffocws adfywio hwn at safleoedd diwydiannol gan gynnwys hen waith dur Llan-wern, hen waith Whitehead, hen ffatri Novelis, ond ceisiodd hefyd wella ystadau tai presennol gan gynnwys Ringland ac Alway yn ogystal â sicrhau bod Canol y Ddinas yn gallu cyflawni ei lawn botensial, gan adeiladu ar lwyddiant ail-ddatblygu Friars Walk.

Golygfa o'r Awyr o Friars Walk

5.2.3 Mae'r ffocws hwn ar adfywio o fewn y ffin drefol sy'n canolbwyntio ar safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen wedi bod yn hynod lwyddiannus. Dros gyfnod y cynllun mae 94% o'r holl dai a ddarparwyd wedi bod ar safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen ac mae'r holl ddatblygiadau ar safleoedd tir glas wedi bod o fewn lwfans polisi'r cynllun. Mae llwyddiant y safleoedd tai dynodedig yn y cynllun diwethaf yn golygu y bydd angen dod o hyd i safleoedd newydd er mwyn parhau i sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai yn cael ei gynnal. O ran dosbarthu gofodol, mae'n debygol, er y bydd safleoedd tir llwyd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth ddarparu safleoedd ar hap, wrth symud ymlaen, cydnabyddir mai prin yw'r cyflenwad o dir llwyd ac mae'n debygol y bydd yn rôl y gall safleoedd tir glas ei chwarae wrth gyflwyno lefelau uchel o dai fforddiadwy a theuluol a darpariaeth ehangach o seilwaith strategol y CDLl.

Datblygu Ardal Ehangu Ddwyreiniol y Ddinas, gan ganolbwyntio ar ardal hen Waith Dur Llanwern;

5.2.4 Mae'r Ardal Ehangu Ddwyreiniol yn canolbwyntio ar y ddau ddatblygiad mawr, tai yn bennaf, yn hen Waith Dur Llanwern (Glan Llyn) a Llanwern Village. Mae'r cyntaf yn ddatblygiad tir llwyd a'r olaf yn un tir glas. Nid yw'r ddau safle wedi bodloni'r gyfradd gyflenwi y cytunwyd arni a nodir yn llwybr y CDLl ond mae'r ddau safle'n mynd rhagddynt ac mae'n amlwg y bydd cymunedau newydd yn cael eu creu drwy sefydlu'r ysgol gynradd, mannau chwarae a'r cyhoedd. Roedd yna gynsail i'r ffocws strategol ar ddatblygu'r ardal hon yn y CDLl blaenorol. Bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni cynllun yn y dyfodol.

Adfywio craidd manwerthu Canol y Ddinas;

5.2.5 Mae cyfnod y Cynllun wedi gweld cyflawni ailddatblygu Friars Walk yn llwyddiannus, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar graidd manwerthu a hamdden y Ddinas. Ysgrifennwyd y CDLl blaenorol cyn gweithredu'r cynllun felly mae'r polisïau manwerthu'n adlewyrchu'r sefyllfa cyn Friars Walk. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi comisiynu Astudiaeth Masnach a Hamdden (Nexus 2019) a argymhellodd ymagwedd hyblyg yng Nghanol y Ddinas i ddenu buddsoddiad. Mae lefel y swyddi gwag, y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a phwysau i gael manwerthu y tu allan i'r dref yn parhau i fod yn bryder ond mae bywiogrwydd canolfannau ardal a lleol yn galonogol. Mae effaith Covid 19 yn amlwg yn ffactor yn swyddogaeth a lefel buddsoddiad canolfan fel Casnewydd a bydd angen i gynllun newydd ystyried y fframwaith polisi mwyaf priodol er budd y Ddinas.

Diogelu'r dirwedd, gan gynnwys cynnal y Llain Las statudol ar ffin Caerdydd;

5.2.6 Mae gan Gasnewydd dirwedd unigryw sy'n darparu cefnwlad gadarnhaol a deniadol i'w chanolfan drefol. Mae'r AMBau wedi dangos bod y CDLl dros y pum mlynedd diwethaf wedi llwyddo i sicrhau nad yw datblygiadau'n arwain at golli tirwedd neu le agored pwysig heb gydymffurfio â pholisïau'r cynllun. Gwneir yr eithriadau pan fydd niwed o e.e. cynlluniau ynni adnewyddadwy yn cael ei orbwyso gan fanteision y defnydd arfaethedig. Mae polisïau'r Llain Las a'r Lletem Werdd wedi diogelu'r ardaloedd hynny rhag datblygiadau amhriodol, ac maent yn debygol o barhau i fod yn rhan bwysig o ddiogelu nffurf agored a chlos y ffurf drefol.

Cadw safleoedd a rhywogaethau a ddiogelir, a hybu bioamrywiaeth;

5.2.7 Mae gan Gasnewydd lu o nodweddion bioamrywiaeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r gwaith o fonitro'r CDLl wedi llwyddo i ddiogelu'r adnodd hwn a bydd effaith bosibl unrhyw ddatblygu yn y dyfodol yn ffactor allweddol mewn Cynllun newydd. Bu newid cyd-destunol ers ei fabwysiadu a'r angen am ddull ecosystemau wrth wneud penderfyniadau. Cafwyd cyflwyniad hefyd ar gyfer y gofyniad am Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a nodir yn PCC ac mae ystyriaethau clir o weithrediad Deddf yr Amgylchedd Cymru yn 2016 ar gyfer y CDLl nesaf.

Meithrin twf y Ddinas yn unol â'i rôl yn y rhanbarth, ei manteision o ran lleoliad a'i hymdeimlad unigryw o le;

5.2.8 Mae Casnewydd yn chwarae rhan bwysig yn

y rhanbarth oherwydd ei lleoliad manteisiol, cysylltiadau da, a'i amgylcheddau diwylliannol ac amgylcheddol gwerthfawr. Adlewyrchwyd hyn yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn ceisio defnyddio'r fantais leoliadol hon a'r ymdeimlad penodol o le.

Adeiladu ar lwyddiant cyfleusterau chwaraeon Casnewydd sydd o safon genedlaethol a rhyngwladol.

5.2.9 Mae pwysigrwydd chwaraeon a digwyddiadau i Gasnewydd yn parhau i gynyddu gydag atyniad Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Felodrom Cenedlaethol, gwell cyfleusterau i Rodney Parade, Canolfan Gynadledda Ryngwladol, a lleoliad Cwpan Ryder yn y Celtic Manor. Mae digwyddiadau'n parhau gyda sefydlu Marathon ABP Casnewydd Cymru yn 2018 a'r Gemau Trawsblaniadau Prydain Westfield Health mwy diweddar a gynhaliwyd gan y Ddinas ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r seilwaith wedi hen ennill ei lle ac mae gallu Casnewydd i gynnal digwyddiadau mawr yn amlwg. Ceir effeithiau economaidd a chymdeithasol o weithgareddau o'r fath y bydd angen i'r CDLlN eu hystyried o ran darparu cyfleusterau, anghenion llety a chreu swyddi.

Cyflawni Strategaeth y CDLl

5.2.10 Gosododd y CDLl dargedau cyflawni ar gyfer creu:

- 10,350 o gartrefi y byddai 2,061 ohonynt yn rai fforddiadwy; a
- 21.5 hectar o dir cyflogaeth, a 7,400 o swyddi;

Mae'r CDLl wedi llwyddo i gyflawni ei strategaeth drwy ddarparu:

- 5,978 o gartrefi (dim ond 575 uned islaw gofyniad y cynllun), y mae 1,223 ohonynt yn fforddiadwy (dim ond 78 uned islaw gofyniad y cynllun);
- 26 hectar o dir cyflogaeth newydd ac mae'r lefel creu swyddi yn parhau uwchlaw'r gyfradd darged;
- Mae 96% o'r datblygiadau tai ar dir llwyd.
- Mae'r Ardal Ehangu Ddwyreiniol yn mynd rhagddi gyda'r ddwy safle strategol yn gweld eu cwblhau;
- Mae canol y ddinas wedi newid yn sylweddol ers 2105 gyda sefydlu Friars Walk a'r buddsoddiad mwy diweddar mewn adfywio yng nghanol y ddinas e.e. Gwesty'r Mecure;
- Ni chollwyd unrhyw Safleoedd o Ddiddordeb Arbennig, Gwyddonol, Safleoedd Cadwraeth Natur Arbennig, coed a warchodir, Llain Las na thir Lletem Werdd yn groes i'r polisi; a
- Mae'r Ddinas wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau pwysig eraill ac wedi gweld creu mwy o gyfleusterau digwyddiadau e.e. ICC yn y Celtic Manor.

Er gwybodaeth, ceir trosolwg ar gyflawni dyraniadau safleoedd y CDLl yn Atodiad 1.

Canolfan Gynadledda Ryngwladol



Argraff arlunydd o ailddatblygiad Tŵr y Siartwyr

Casgliad ar gyfer Strategaeth y CDLl

5.2.11 Adolygwyd strategaeth y CDLl gan ystyried y pum AMB, y newidiadau cyd-destunol, ac ymgynghori mewnol ag adrannau perthnasol y Cyngor. Er bod nodau cyffredinol y strategaeth flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol, mae cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus yn golygu bod ei hadolygu yn arbennig o berthnasol.

5.2.12 Bydd y CDLl diwygiedig yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2021 a 2036. Bydd hynny'n golygu y bydd angen i CDLl diwygiedig ystyried anghenion y ddinas, gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth, hyd at 2036. Er mwyn cyflawni'r CDLl mabwysiedig yn llwyddiannus, bydd angen dyrannu safleoedd datblygu ychwanegol. Mae nifer o ddiweddariadau gofynnol hefyd i sylfaen dystiolaeth y CDLl gan gynnwys Asesiad cyfredol o'r Farchnad Dai Leol, Amcanestyniadau Poblogaeth, Asesiadau Pentref, yr Adolygiad Tir a'r Strategaeth Economaidd, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r ffocws ar botensial adfywio, chwaraeon a digwyddiadau Canol y Ddinas yn ogystal â diogelu ein hamgylchedd unigryw yn debygol o barhau yn unol â blaenoriaethau eraill y Cyngor a'r gofynion sylfaenol o sicrhau datblygu cynaliadwy. Bydd angen ystyried materion sydd wedi dod i'r amlwg ers mabwysiadu'r CDLl yn 2015, gan gynnwys mwy o bryderon am newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer. Bydd angen ystyried yr holl faterion hyn fel rhan o CDLlN.

5.3 Adolygu o Bolisïau'r CDLl

5.3.1 Adolygwyd polisïau'r CDLl gan ystyried y canlynol:

- Canfyddiadau'r pum Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (AMBau);
- Newidiadau cyd-destunol sylweddol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun, gan gynnwys newidiadau mewn polisi, deddfwriaeth a strategaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol;
- Mae ymgynghori mewnol wedi digwydd gydag amrywiol adrannau, gan gynnwys pwyllgor cynllunio, o fewn y Cyngor. Defnyddiwyd grwpiau ffocws rhithwir, holiaduron a chyflwyniadau i gasglu gwybodaeth am gyfyngiadau, hepgoriadau a llwyddiannau'r fframwaith polisi cyfredol.

5.3.2 Ceir crynodeb o'r asesiad o'r adolygiad polisi yn Atodiad 2. Mae hyn yn rhoi trosolwg o p'un a yw polisi/dyraniad yn gweithio'n effeithiol, a yw'n debygol y bydd angen unrhyw ddiwygiadau ac a ddylid dileu neu gyfuno unrhyw bolisïau fel rhan o broses adolygu'r Cynllun. Nid ystyrir bod yr asesiad polisi a gynhaliwyd hyd yma yn derfynol a rhoddir ystyriaeth bellach i'r angen i ddiwygio polisïau'r Cynllun fel rhan o'r broses adolygu.

5.3.3 Bydd angen i'r adolygiad o'r Cynllun hefyd ystyried goblygiadau cyfnod Cynllun estynedig. Mae'r Cynllun presennol yn rhedeg hyd at 2026, gyda'r Cynllun Newydd yn gosod cyfnod cynllun o 2021-2036. Bydd ymestyn cyfnod y Cynllun yn arwain at angen diwygiedig am anheddau a gofyn am safleoedd newydd ar gyfer anheddau i'r farchnad a rhai fforddiadwy. Bydd angen i'r adolygiad ystyried fersiwn ddiwygiedig Polisi Cynllunio Cymru, yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diwygiedig, yn ogystal â diweddariadau eraill i'r sail dystiolaeth. At hynny, gall y broses adolygu hefyd archwilio'r ffyrdd y gallai cynllun newydd ymateb i heriau presennol fel pandemig Covid, yr argyfwng hinsawdd, argyfyngau gordewdra a materion eraill a nodir isod. Bydd angen i'r diweddariadau a'r materion hyn gael eu hystyried yn drylwyr a mynd i'r afael â hwy mewn modd cynhwysfawr.

5.3.4 Trafodir y meysydd polisi allweddol yr ystyrir eu bod yn debygol o fod angen eu diwygio, yn seiliedig ar yr asesiad adolygu polisi, yn fanylach isod.

Newid yn yr Hinsawdd: PS1, PS3, PC1, SA10

5.3.5 Nod y CDLl yw mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy fabwysiadu egwyddorion a datblygiad cynaliadwy. Gan fyfyrio ar sylfaen gynaliadwy'r Cynllun fel egwyddor graidd, bydd angen i fersiynau'r cynllun yn y dyfodol fyfyrio ar yr ystyriaethau diweddaraf a sicrhau fframwaith polisi addas.

5.3.6 **Perygl Llifogydd:** Mae rhan helaeth o Gasnewydd ar y gorlifdir ac, o ganlyniad, mae Casnewydd yn delio â nifer sylweddol o geisiadau a effeithir gan berygl llifogydd. Mae monitro ar gyfer y polisïau perygl llifogydd yn

dangos bod 29 o geisiadau wedi'u caniatáu mewn parth llifogydd nad oeddent yn bodloni'r meini prawf perygl llifogydd a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 15 dros y 5 mlynedd o AMBau. Er yr ystyriwyd y ceisiadau hyn yn rhai caniataol ar sail adfywio, neu fod lefel dderbyniol o risg neu nad oedd mwy o risg amlwg o'r datblygiad, mae'n amlwg bod deuoliaeth y bydd angen ymchwilio ymhellach iddi.

5.3.7 Mae'r diweddariad arfaethedig i NCT 15, cynhyrchu Mapio Llifogydd Cymru Gyfan newydd, Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi'i ddiweddaru, a'r safonau gorfodol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy, yn berthnasol i'r adolygiad polisi.

5.3.8 **Ynni Adnewyddadwy:** Mae'r AMBau blaenorol wedi canfod bod y polisïau ynni adnewyddadwy yn gweithio'n effeithiol o ran darparu ynni adnewyddadwy, gyda chyfanswm o 11 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle, a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLl (ac eithrio datblygiad a ganiateir), gan greu hyd at 80.35MW o ynni. Fodd bynnag, mae newidiadau cyd-destunol sylweddol wedi digwydd o ran ynni adnewyddadwy a charbon isel ers mabwysiadu'r CDLl y bydd angen eu hystyried/mynd i'r afael â nhw drwy broses adolygu'r CDLl.

5.3.9 Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o "Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel" ym mis Medi 2015. Mae'r diweddariad yn cynnwys adran ychwanegol sy'n ymwneud â sut mae awdurdodau cynllunio lleol yn asesu'r potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Mae'r pecyn cymorth diwygiedig yn darparu methodoleg er mwyn helpu i gynhyrchu Asesiadau Ynni Adnewyddadwy (AYAau/REAs) a chyngor ychwanegol ar sut i drosi canlyniadau'r AYAau i sail dystiolaeth y CDLl, polisïau dilynol a gosod targedau. Disgwylir i awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Bydd angen i'r CDLl diwygiedig ystyried y Pecyn Cymorth diwygiedig a mynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol a nodir ynddo.

Iechyd: PS2, PC7

5.3.10 Ystyrir bod y polisïau presennol yn ymwneud ag iechyd yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun bydd adolygiad o'r polisïau hyn yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn cwmpasu pob agwedd ar yr agenda iechyd lle mae gallu gan gynllunio i wneud gwahaniaeth. Yn gyffredinol, bydd angen i broses adolygu'r cynllun edrych y tu hwnt i adrodd yr AMB a dadansoddi'r polisi presennol mewn ymateb i'r dystiolaeth gynyddol, sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng iechyd a'r amgylchedd adeiledig ac yn ceisio ffafrio creu amgylcheddau mwy iach a llesol. Yn benodol, gall y broses adolygu ystyried pethau fel yr angen am amgylcheddau sy'n dda i ddementia ac archwilio'r cysylltiadau rhwng gordewdra, iechyd a llesiant, ansawdd aer a ffyrdd iach a llesol o fyw a'r amgylchedd adeiledig ac ystyried yr ymateb polisi mwyaf priodol i'r cyd-destun newydd hwn. Caiff hyn ei lywio gan yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a nodir yng ngwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDLlN.

Seilwaith Gwyrdd: PS5, PS6, PS7, PS8, PS9, SA1, SA2, SA3, SA9

5.3.11 Cafodd y mannau agored presennol a'r polisïau mannau gwyrdd naturiol hygyrch a gynhwysir yn y CDLl eu llywio gan wahanol bapurau cefndir technegol. Roedd y rhain yn asesu faint o hamdden awyr agored, darpariaeth mannau agored cyhoeddus, darpariaeth rhandiroedd, Lletem Werdd, ffin Aneddiadau, SBCN (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur/SINC) ac ati ar draws yr awdurdod. Bydd y gofyniad newydd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru ar gyfer Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn cyfuno'r wybodaeth ddiweddaraf am y papurau technegol hyn a gofynion eraill gwaith ASG i lywio dyraniadau cynlluniau a geiriad polisi. Mae effeithiolrwydd y polisïau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwyrdd wedi'i fonitro gan y 5 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac wedi dangos bod hyn wedi bod yn effeithiol.

5.3.12 O ystyried hyn, ystyrir bod y polisïau hyn yn gweithio'n effeithiol, ond mae cyfleoedd i adeiladu ar bwysigrwydd cysylltedd drwy archwilio ac atgyfnerthu cysylltiadau â meysydd polisi eraill, yn enwedig y rheini sy'n hyrwyddo seilwaith gwyrdd. Bydd adolygiad priodol o dystiolaeth a rôl Creu lle a Dylunio yn cael ei gynnal fel rhan o'r gwaith o ddatblygu dealltwriaeth o fanteision a gwerth dull gweithredu o'r fath ynghyd ag adolygiad o'r sylfaen tystiolaeth, er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a newidiadau cyd-destunol.

Treftadaeth: PS9, SA4, SA5, SA6, SA7

5.3.13 Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisïau Treftadaeth yn gweithio'n effeithiol. Mae effeithiolrwydd y polisïau hyn wedi'i fonitro gan y 3 AMB a gynhyrchwyd hyd yma ac maent wedi dangos yr ystyriwyd bod mwyafrif llethol y ceisiadau perthnasol a dderbyniwyd ar asedau'r amgylchedd hanesyddol yn cydymffurfio â pholisi yn amodol ar amodau/argymhellion a roddwyd ar y caniatâd. Caniatawyd ychydig o geisiadau â gwrthwynebiad gan gynghorwyr treftadaeth statudol na chawsant eu hateb a bydd ymchwil yn cael ei wneud i ddeall pa newidiadau a allai fod yn angenrheidiol i gynorthwyo unrhyw bryderon a godwyd. Cyfeirio at newidiadau cyd-destunol diweddar e.e. bydd canllawiau Cadw yn debygol o fod o gymorth.

Ecoleg: PS4, PS9, PC5, SA8

5.3.14 Llywiwyd y CDLl gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), ei ddiben yw asesu effeithiau cynllun defnydd tir, ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill, yn erbyn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodwyd ar gyfer eu statws ecolegol) a chanfod (ar ôl sgrinio) beth sydd angen Asesiad Priodol (AP). Bydd y broses hon yn cael ei chynnal fel rhan o'r CDLlN a bydd unrhyw ddiwygiadau i'r fframwaith polisi yn cael eu hystyried.

5.3.15 Mae'r polisïau ecolegol yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella, ac wrth wneud hynny, cyfrannu at gymedroli effeithiau andwyol posibl polisïau eraill sy'n tybio datblygiad ffisegol hyd yn oed ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisïau yn gweithredu'n effeithiol ond bydd angen diweddaru'r sylfaen tystiolaeth er mwyn sicrhau bod y dynodiadau, y rhywogaethau a'r cynefinoedd perthnasol yn cael eu hystyried. Bydd angen ystyried y gofyniad diweddar am liniaru ecolegol hefyd er mwyn sicrhau eglurder o ran proses.

Tai: PS10, PS11, T1- T17

5.3.16 Yn dilyn diwygio Polisi Cynllunio Cymru a dirymu NCT 1 yn ei gyfanrwydd, mae'r Llawlyfr CDLl diwygiedig (Argraffiad 3) yn nodi sut y mae'n rhaid monitro'r gwaith blynyddol o gwblhau tai yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (CABR/ AABR). Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol Gwledig gynnwys llwybr ar gyfer tai, a ddatblygir gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y diwydiant datblygu, gan ystyried cyflwyno safleoedd fesul cam er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y llawlyfr CDLl.

5.3.17 Y gofyniad tai a nodir yn y CDLl presennol yw 10,350 o anheddau (Polisi SP10) dros gyfnod y Cynllun 2011-2026. Cafodd y ffigur hwn ei lywio'n bennaf gan amcanestyniadau aelwydydd LIC 2008 a oedd yn rhagweld cynnydd yn y boblogaeth o 10% dros gyfnod y Cynllun. Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd swyddogol diweddaraf LIC (2018) yn parhau i ragweld cynnydd yn y boblogaeth ar gyfer Casnewydd. Bydd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer llywio ffigurau'r gofyniad tai yn y dyfodol ar gyfer y CDLlN. Bydd angen i broses nesaf y cynllun asesu'r lefel fwyaf priodol o dwf ar gyfer cyfnod Cynllun y tu hwnt i ddyddiad gorffen y CDLl presennol.

5.3.18 Mae'r cyfraddau darparu tai a gyflawnwyd ers mabwysiadu'r CDLl wedi bod yn drawiadol gan ddarparu 5,978 o unedau hyd yma, dim ond 575 o unedau yn is na tharged y CDLl. (Ebrill 2019) Casnewydd fu un o'r ychydig awdurdodau yng Nghymru i sicrhau cyflenwad tir cyson 5 mlynedd o dai ac er i AMB 2020 nodi ychydig o dangyflawni (4%) yn erbyn cyfraddau cytûn ar gyfer safleoedd tai, a nodwyd yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC/AAR), ystyriwyd bod y cyflawniad yn parhau i fod yn dderbyniol.

5.3.19 Mae'r angen i integreiddio cyflogaeth a thai yn rhoi pwysau ar y defnydd sydd ar dir llwyd o ddefnyddiau eraill. Mae llwyddiant y safleoedd tai dynodedig yn y cynllun diwethaf yn golygu, gyda'r lefelau cwblhau presennol a chynnydd amlwg ar lawer o safleoedd dynodedig eraill, fod dyraniadau'r CDLl ar gyfer tai yn ateb y galw. Mae hyn yn golygu y bydd angen dod o hyd i safleoedd newydd i barhau â'r cyflawniad llwyddiannus hwn er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai yn cael ei gynnal. O ran dosbarthu gofodol, mae'n debygol, er y bydd safleoedd tir llwyd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth ddarparu safleoedd ar hap, wrth symud ymlaen, cydnabyddir mai prin yw'r cyflenwad o dir llwyd ac mae'n debygol y bydd rôl y gall safleoedd tir glas eu chwarae wrth gyflwyno lefelau uchel o dai fforddiadwy a theuluol a darpariaeth ehangach o seilwaith strategol yn y CDLl.

Cyflogaeth: PS17, PS18, CYF1, CYF2, CYF3

5.3.20 Mae tir cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiogelu at ddibenion cyflogaeth gan Bolisïau PS17 ac CYF1. Hwylusir ffyniant yr economi leol yn y dyfodol drwy sicrhau y gall yr awdurdod gynnig amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau at ddibenion cyflogaeth. Fel rhan o'r broses adolygu, rhoddir ystyriaeth i'r strategaeth gyflogaeth er mwyn ystyried y dyraniadau diwydiannol a busnes sydd wedi'u datblygu ers mabwysiadu CDLl. Bydd angen ystyried hefyd 'economïau'r dyfodol' a'u gofynion o ran lleoliad, safle ac adeiladau.

5.3.21 Mae'r AMBau yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran darparu tir cyflogaeth a ddyrennir o dan bolisïau PS17 ac CYF1. Fodd bynnag, nodir nad oedd 16 o geisiadau cynllunio yn ystod y 5 AMB a oedd yn cynnwys colli tir cyflogaeth wedi ystyried polisi CYF3 yn llawn. Nodwyd hyn fel "angen hyfforddiant". Er bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau wedi ystyried y polisi hwn, dylai unrhyw ddiwygiad CDLl yn y dyfodol ystyried a yw geiriad a meini prawf y polisi, yn briodol ac yn ymarferol ar gyfer y dyfodol.

Rhwymedigaethau Cynllunio: PS13, T4

